# BWRDD PENSIWN

**3 MAI 2022**

**YN BRESENNOL:** John Jones (Cadeirydd)

**Aelodau'r Pwyllgor:-**

| | |
|---|---|
| Mr. M. Evans, | – Cynrychiolydd Aelodau; |
| Cllr. Gareth Lloyd | – Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau; |
| Mr. Tommy Bowler | – Cynrychiolydd o'r Undeb. |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol;
J. Williams, Cyfrifydd Cynorthwywr;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol:-**
Mr A. Brown - Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol.

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:-**
Y Cynghorydd D.E. Williams - Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed.

**Rhith-Gyfarfod: 2:00yp - 3:28yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mr Mike Rogers, Cynrychiolydd Pensiynwyr sy'n Aelodau a Mr Paul Ashley Jones, Cynrychiolydd Aelodau.

Croesawyd Mr Michael Evans, Cynrychiolydd Aelodau, gan y Cadeirydd.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A GYNHALIWYD AR 25 IONAWR 2022

**CYTUNWYD bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2022 yn gywir.**

**4. CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED A GYNHALIWYD AR 29 MAWRTH 2022**

**4.1. COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED 9 TACHWEDD 2021**

Nododd y Bwrdd fod cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, 2021 wedi'u derbyn gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed.

**4.2. MONITRO CYLLIDEB 1 EBRILL 2021 - 31 RHAGFYR 2021**

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf am y cyfnod 1 Ebrill 2021 - 31 Mehefin 2021.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**4.3. CYLLIDEB 2022-2023**

Bu'r Bwrdd yn ystyried cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Tynnwyd sylw at y ffaith fod y gwariant arian parod cysylltiedig ar gyfer 2022/23 a oedd wedi'i bennu ar £107.8m a'r incwm arian parod cysylltiedig o £107.8m wedi arwain at gyllideb net o £0 a oedd yn rhoi hyblygrwydd i'r Gronfa ddefnyddio incwm buddsoddi ar sail gofynion llif arian.

O ran lefelau gwariant, nododd y Bwrdd fod y buddion sydd i'w talu wedi cael eu hamcangyfrif i fod yn £93.9m a oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnydd o 3.1% yn y pensiynau, ar sail Mynegai Prisiau Defnyddiwr mis Medi 2021, ynghyd ag effaith net o 1.9% ar gyfer aelodau newydd y pensiwn ac aelodau gohiriedig.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**4.4. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31 RHAGFYR 2021**

Bu'r Bwrdd yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**4.5. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU**

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad a roddai ddiweddariad ar Weinyddu Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, cyflogwyr newydd, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoniad GMP a llif gwaith.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch pryd y byddai pob cyflogwr yn weithredol ar i-Connect, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed hefyd wedi codi ymholiad tebyg a dywedodd fod yr amserlen yn cael ei phennu gan gyflogwyr yn blaenoriaethu cynhyrchu darn mewn fformat penodol i'w lwytho'n uniongyrchol i mewn i'r system bensiynau.

Gofynnodd y Bwrdd am anogaeth bellach i'r cyflogwyr hynny sy'n rhan o'r cynllun ac sydd heb ddod yn weithredol ar i-Connect hyd yn hyn.

**CYTUNWYD bod Adroddiad Gweinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

## 4.6. ADRODDIAD TORRI AMODAU 2021-22

Cafodd y Bwrdd yr Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd bod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith.

Gan nad oedd unrhyw oblygiadau i'r achosion o dorri'r rheolau, nid oedd unrhyw adroddiad wedi'i anfon at y Rheoleiddiwr Pensiynau, ond dywedwyd ei bod yn ymddangos bod patrwm mynych o achosion lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwyr wedi'u derbyn yn brydlon. Eglurodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn fod ymgysylltu parhaus yn digwydd er mwyn lleihau'r mathau hyn o achosion o dorri amodau.

**CYTUNWYD bod yr Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

## 4.7. COFRESTRE RISG

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod y Gofrestr Risg yn tynnu sylw at yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Dywedwyd bod y gofrestr risg wedi'i hadolygu a bod risg CSV400035 wedi'i diwygio a bod risg newydd CSV400036 – Risg y Farchnad Ariannol Fyd-eang wedi'i chynnwys.

O ran nifer y risgiau a restrir ar y gofrestr risg, gofynnodd y Bwrdd a ellid cynhyrchu adroddiad mwy cryno yn tynnu sylw at y risgiau strategol ar wahân i'r risgiau gweithredol?

Dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y byddai'n cysylltu â'r tîm sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r adroddiad ac yn y cyfamser byddai'r risgiau'n cael eu hadolygu bob chwarter a byddai unrhyw newidiadau yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd.

## 4.8. DIWEDDARIARD YNGHYLCH BUDDSODDI CYFRIFOL

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch a chynnydd y Gronfa o ran Buddsoddi Cyfrifol. Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am lywodraethu, stiwardiaeth (Ymgysylltu /Cyfathrebu) a'r cynnydd a wnaed hyd yma.

Roedd y Bwrdd yn falch o dderbyn yr adroddiad a gofynnwyd am gyfleoedd i roi cyhoeddusrwydd ehangach i'r adroddiad.

**CYTUNWYD bod y wybodaeth ddiweddaraf am Fuddsoddi Cyfrifol mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

## 4.9. POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL DRAFFT

Derbyniodd y Bwrdd Bolisi Buddsoddi Cyfrifol Drafft Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn cynnwys yr eitemau canlynol:

- Cyflwyniad
- Buddsoddi Cyfrifol
- Credoau Buddsoddi
- Rôl y Bwrdd Pensiwn
- Rhoi Benthyg Stoc
- Ymgysylltu
- Newid yn yr Hinsawdd
- Hawliau Dynol

**CYTUNWYD bod Polisi Buddsoddi Cyfrifol Drafft Cynllun Pensiwn Dyfed yn cael ei nodi**

## 4.10. CYNLLUN BUSNES 2022-2023

Derbyniodd y Bwrdd Gynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod 2022-2023, yn nodi sut oedd y Gronfa yn mynd i gyflawni ei hamcanion o safbwynt marchnata, a safbwynt ariannol a gweithredol.

**CYTUNWYD bod Cynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2022/23 yn cael ei nodi.**

## 4.11. CYNLLUN HYFFORDDI 2022-23

Derbyniodd y Bwrdd Gynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2022-2023, a oedd yn darparu manylion am gyfarfodydd, digwyddiadau hyfforddi a'r aelodau a'r swyddogion y rhagwelwyd y byddent yn mynychu'r digwyddiadau.

**CYTUNWYD bod Cynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2022-23 yn cael ei nodi.**

### 4.12. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU 2022-2025

Derbyniodd y Bwrdd Gynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod 2022-2025, yn nodi sut oedd y Gronfa yn mynd i gyflawni ei hamcanion a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gyflawni'r amcanion hynny.

**CYTUNWYD bod Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2022-25 yn cael ei gymeradwyo.**

### 4.13. Y DIWEDDARAF AM BARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU LINK A RUSSELL

Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â'r Is-Gronfeydd ynghyd â daliadau cyfredol y gronfa, cynnydd lansio'r gronfa a Diweddariad Corfforaethol ac Ymgysylltu Buddsoddiadau Link / Russell, fel y'i cyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 29 Mawrth 2022.

Yn ogystal, rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r diweddariad Corfforaethol ac Ymgysylltu, gan gynnwys y protocol ymgysylltu ac unrhyw ddyddiadau cyfarfodydd allweddol.

**CYTUNWYD bod Adroddiad Diweddaru'r Gweithredwr yn cael ei dderbyn a bod y cerrig milltir a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu nodi.**

### 4.14. PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED DRAFFT - 29 MAWRTH 2022

**CYTUNWYD bod cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2022 yn cael eu nodi.**

## 5. CYNLLUN GWAITH Y BWRDD PENSIWN 2022-2023

Bu'r Bwrdd yn ystyried Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiynau ar gyfer 2022-23 a oedd yn amlinellu gwaith y Bwrdd Pensiynau drwy gydol 2022 a'r eitemau i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod.

**CYTUNWYD bod Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2022-2023 yn cael ei nodi.**

## 6. MONITRO CYLLIDEB Y BWRDD PENSIWN 1 EBRILL 2021 - 31 MAWRTH 2022

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad Monitro Cyllideb y Bwrdd Pensiwn ar 31 Mawrth 2022. Cyfanswm y gwir wariant oedd £14.477k. Y gwariant a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £9.683k o danwariant o gymharu â'r gyllideb.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

7. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

8. **ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31 RHAGFYR 2021**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beri risg i'r perfformiad buddsoddi.**

Bu'r Bwrdd yn ystyried Adroddiad Perfformiad a Risg yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2021, ynghyd â chefndir y farchnad fyd-eang a materion i'w hystyried.

**CYTUNWYD bod Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2021 yn cael ei nodi.**

9. **ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31 RHAGFYR 2021**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beri risg i'r perfformiad buddsoddi.**

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2021 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau cyn i'r gronfa gychwyn.

**CYTUNWYD bod adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2021 yn cael ei nodi.**

**10. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 31 RHAGFYR 2021**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beri risg i'r perfformiad buddsoddi.**

Derbyniodd y Bwrdd adroddiadau i'w hystyried a ddarparwyd gan y Rheolwyr Buddsoddi a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2021:

- BlackRock - Adroddiad Chwarterol 31 Rhagfyr 2021;
- Schroders – Adroddiad Buddsoddi Ch4 2021 31 Rhagfyr 2021;
- Partners Group – Adroddiad Chwarterol 31 Rhagfyr 2021;
- Cronfa Twf Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru – 31 Rhagfyr 2021;
- Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru – 31 Rhagfyr 2021.

**CYTUNWYD bod adroddiadau'r Rheolwr Buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael eu nodi.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |